Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 27 Ionawr 2025 am 7:00 yr hwyr.

| ENW | PRESENNOL | YMDDIHEURO |
|---|---|---|
| Alan Harper-Smith | | ✓ |
| Andrew Parry (Cadeirydd) | ✓ | |
| Greta Hughes | ✓ | |
| Gwenllian Davenport Hughes | ✓ | |
| Hywel James Sinclair Evans | ✓ | |
| Ian Goronwy Williams (Is-gadeirydd) | ✓ | |
| John Brinley Jones | ✓ | |
| Keith Williams | ✓ | |
| Kevin Wheatley | | ✓ |
| Thomas Victor Jones | ✓ | |
| William Roger Jones | ✓ | |
| **HEFYD** | | |
| Caroline Jones (Clerc) | ✓ | |
| * wedi cyrraedd neu adael y cyfarfod lle cofnodwyd. | | |

CONFIDENTIAL

1. **Presennol ac ymddiheuriadau**
   Dymunwyd blwyddyn newydd dda i bawb.
   Rhestrwyd yr aelodau'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. **Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Cyngor 25 Tachwedd 2024**
   Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.
   Cynigiwyd gan: Thomas Victor Jones
   Eiliwyd gan: Ian Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**

**4.1. Adborth i E-bost Liz Saville-Roberts AS ar:**

4.1.1. Newid o linellau ffôn analog i linellau ffôn digidol

4.1.2. Metrau clyfar ar gyfer trydan a nwy

4.1.3. Tlodi Ynni a Chredyd Pensiwn

Nodwyd cynnwys yr e-bost gan yr Aelod Seneddol a gofynnwyd i'r aelodau adrodd yn ôl drwy'r Clerc pe byddai unrhyw mater perthnasol yn codi gan trigolion y cymuned. Gofynnwyd hefyd i'r Clerc rho'r cwestiynau i'r gymuned, er mwyn casglu sylwadau.

**4.2.** Goriad i folardiau Traeth Llanbedrog i drigolion: Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb i'r cais yma gan yr adran forwrol yng Nghyngor Gwynedd. Adroddwyd bod trwyddedau a goriadau wedi eu dosbarthu i drigolion rhwng 2005 a 2012, ond yn

anffodus bu i rai trigolion dorri'r cytundeb drwy wneud copïau o'r goriad er mwyn i bobl nad oedd ganddynt drwydded cael mynediad i'r traeth. Roedd Cyngor Gwynedd yn bryderus i rannu rhagor o oriadau rhag ofn i'r un peth ddigwydd eto, gan ystyried hefyd nad oedd warden ar y traeth o gwbl i allu rheoli mynediad. Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned ystyried yn ofalus cyn cadarnhau os y byddai'n dymuno a dychwelyd i'r drefn o rannu goriadau gyda thrigolion. Yn dilyn trafodaeth:
**Penderfynwyd: I ddychwelyd i'r drefn o roi mynediad i drigolion i'r traeth gyda Chyngor Gwynedd yn dosbarthu'r drwydded. Y Clerc i adrodd hyn i'r Adran Forwrol yng Nghyngor Gwynedd, ac i argymell goriad o'r math na ellir gwneud copi ohono.**

**4.3.** Carafán ar dir Lôn Abersoch: Adroddwyd bod rhagor o rwbel wedi cael ei leoli ar y tir tu gefn i Graig y Glyn, a oedd yn peri pryder o lygredd. Roedd hyn yn ychwanegol i'r hynny a'i hadroddwyd arno eisoes. Dywedodd y Clerc bod bob achlysur wedi cael ei adrodd i'r adran orfodaeth yng Nghyngor Gwynedd ond nid oedd yr adran yn ymateb, dim ond gydag e-bost awtomatig bod y mater yn derbyn sylw.
**Gweithredu: Y Clerc i roi gwybod i Gyngor Gwynedd am y datblygiad pellach a gofyn unwaith eto am ymateb er mwyn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.**

**4.4.** Cyffordd A499 gyferbyn Glyn y Weddw Arms: derbyniwyd cwynion drwy John Brinley Jones bod rhai gyrwyr yn gyrru'n ddiofal wrth droi i fyny am y pentref o Bwllheli. Roedd hyn yn fater sydd wedi bodoli erioed yn ôl bob golwg.

Codwyd hefyd sylw am gyflwr gwael wyneb y lôn wrth dalcen Tŷ Du, Glyn y Weddw.

**Gweithredu: Y Clerc i ysgrifennu ar yr adran drafnidiaeth yng Nghyngor Gwynedd i dynnu sylw at y mater gyrru, ac i Heddlu Gogledd Cymru i ofyn a fyddai unrhyw beth a ellir cael ei wneud am hyn, cyn i ddamwain ddigwydd.**
**Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd am gyflwr wyneb y lôn ger Tŷ Du.**

**4.5.** Coeden yn Greystones: tynnwyd sylw at y goeden a oedd wedi disgyn yn dilyn storm ac yn mynd ar draws y palmant.
**Gweithredu: Clerc i roi gwybod i Gyngor Gwynedd er mwyn i'r goeden gael ei glirio.**

**5. Llwybrau**
Adroddodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu ynglŷn â thalu cyfraniad tuag at dorri'r llwybrau. Byddai'r Clerc yn ymateb gyda manylion y costau am y flwyddyn flaenorol er mwyn derbyn cyfraniad.

Cafwyd ymateb gan y Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd am ledaenu'r llwybr tu ôl i'r ysgol; roedd wedi ymweld â'r safle ym mis Rhagfyr ac wedi gweld bod peth gwaith wedi ei wneud yno, ond nid oedd yn glir beth oedd yn digwydd; byddai'n trafod y mater gyda'i reolwr ac ymateb pan fyddai mwy o wybodaeth.

CONFIDENTIAL

Derbyniwyd sylw bod coeden wedi syrthio ar draws llwybr tu gefn i Graig y Glyn a bod drain wedi tyfu ar lwybr Trwy'r Nant.

**Gweithredu: Y Clerc i roi gwybod i adran llwybrau Cyngor Gwynedd i edrych i mewn i'r mater coeden tu ôl i Graig y Glyn, efallai mai cyfrifoldeb perchennog y tir y byddai.**

**Clerc i ofyn i Osian Parry dorri'r drain ar lwybr Trwy'r Nant.**

6. **Y Fynwent, y Fynwent Newydd**

Adroddodd y Clerc bod Dilwyn Williams yn wedi rhoi gwybod iddi y byddai'n cychwyn ar drwsio wal y fynwent yr wythnos honno. Yn anffodus nid oedd y cwmni yswiriant, Zurich, am dalu am y difrod o fewn y polisi yswiriant. Byddai rhaid adolygu'r polisi am y flwyddyn i ddod i sicrhau polisi cryfach.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda chwmni Cater Jonas ym Mangor i ofyn a fyddent yn gallu cynnig cyngor ar faterion cyfreithiol y Fynwent Newydd, disgwylir ymateb.

Derbyniwyd sylw bod twll yn y ddaear ym mhen llwybr yr hen fynwent, o bosib tyllau cwningen.

**Gweithredu: Y Clerc i ofyn i Roger Fisher llenwi'r tyllau yn y fynwent.**

7. **Cae Chwarae**

**7.1.** Ail agor y Cae Chwarae: rhannwyd asesiad risg gyda'r papurau. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd yn unfrydol i ail-agor y cae chwarae yn unol â'r hynny a nodwyd o fewn yr asesiad risg, ar ôl i'r rhan yna o'r cae cael ei ffensio i ffwrdd.

**7.2.** Torri coed: cytunwyd i'r Clerc roi gwybod Gethin Hughes, y contractwr, i fwrw ymlaen gyda'r gwaith y unol â'i argymell 'b' yn ei e-bost dyddiedig 23/01/2025.

**7.3.** Derbyniwyd sylw bod ffens wedi torri mewn rhai lleoliadau. Gofynnwyd i'r Clerc trefnu iddo gael ei drwsio gan Rhys Jones ar ôl i'r contractwr coed orffen yn y cae. Cytunwyd yr uchod yn unfrydol.

8. **Neuadd y Pentref**

Adroddodd Ian Williams bod cyfarfod diweddaraf y pwyllgor wedi ei ohirio, felly nid oedd materion i'w adrodd y tro hwn. Byddai yn parhau i chwilio am ffordd o gau'r maes parcio o flaen y neuadd i ffwrdd am un noson y flwyddyn er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor Cymuned Llanbedrog ar y tir, byddai'r mater yma yn cael ei drafod gan y pwyllgor.

9. **Taliadau**

**9.1.** Derbyniwyd y taliadau isod a oedd wedi eu gwneud ers y cyfarfod diwethaf gan fod dim cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ym mis Rhagfyr.

a) D Russell: £450

CONFIDENTIAL

b) D Russell: £245

c) PPM (CL Jones): £43.75

d) G Williams Ffensio Cyf: £13,154.88

e) Viking Direct: £8.32

f) Cyflog y Clerc (mis 9): £443.67

g) PAYE a YG (mis 9): £111.00

h) G Davies, Coeden Nadolig: £270

i) Viking Direct: £47.82

j) Ann Llwyd: £70.00

k) Microsoft 365 ad-daliad i'r Clerc: £59.99

Cytunwyd i'r taliadau isod:

l) Emyr Mortimer: £28.80

m) A. Parry, Cradrur.com: £55.00

n) Cyflog y Clerc: £443.87

o) PAYE & YG: £110.80

Derbyniwyd yn unfrydol.

**9.2. Derbyniadau**

a) G. D. Roberts: £160

b) I Hughes: £160

Derbyniwyd manylion y derbyniadau er gwybodaeth.

**9.3.** Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw, y balansau oedd:

a) Natwest Business Reserve: £1,200.90

b) Natwest Current: £26,982.18

c) Natwest Liquidity Manager: £71,350.66

**9.4.** Cyllideb 2025-26: cyflwynwyd y gyllideb drafft a chafwyd trafodaeth ar y cynnwys. Wrth ystyried cyfraniad i Neuadd y Pentref, derbyniwyd sylw bod glendid y neuadd o safon wael. Byddai pwyllgor y neuadd yn trafod y mater glanhau ymhellach.

CONFIDENTIAL

Cytunwyd yn unfrydol:

- I wneud cais £30,000 am y Praesept.
- Talu £5000 tuag at gostau rhedeg Neuadd y Pentref am y flwyddyn i ddod.
- Cyngor Cymuned i fod yn gyfrifol am gyfrif trydan y neuadd, ac i filio Pwyllgor Neuadd am y trydan defnyddiwyd.

Derbyniwyd y cyllideb.

**10. Ceisiadau Cynllunio**

**10.1.** C24/1118/38/CR - Penarwel, Llanbedrog, estyniadau a newidiadau i'r eiddo. Dim gwrthwynebiad, ond dangoswyd pryder am yr effaith ar yr amgylchedd gall y datblygiadau greu a bod y datblygiadau angen defnydd uchel o ynni. Nodwyd nad oedd arolwg bioamrywiaeth lawn wedi ei gynnwys gyda'r cais e.e. ar gyfer ystlumod.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Cyfarfod nesaf dydd Llun, Chwefror 24, 2025.

| | |
|---|---|
| **COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD**<br><br>**ARWYDDWYD *D.A. Parry* DYDDIAD: 10 Chwefror 2025.** | |
| **COFNODION WEDI EU CADARNHAU**<br><br>**ARWYDDWYD** | <br><br>**DYDDIAD:** |

CONFIDENTIAL